THE WRITERS' UNION

# Y CERDYN Hawliau

Hawliau POB dramodydd

Undeb llafur yw'r WGGB, cyfeiriad cofrestredig
134 Tooley Street, Llundain SE1 2TU

**Mae cytundebau cyfreithiol rhwymol yn bodoli rhwng WGGB â'r National Theatre, yr RSC a'r Royal Court (aelodau o'r Pwyllgor Theatrau Cenedlaethol, TNC) a gyda'r cwmnïau theatr cymorthdaledig mewn adeiladau, yn ogystal â rhai cwmnïau teithiol sy'n derbyn cymhorthdal (UK Theatre, UKT).**

Mae'r rhain yn gytundebau amodau isaf, sy'n golygu na all unrhyw gytundeb gynnig amodau llai ffafriol i'r dramodydd (er gall awduron negodi amodau gwell).

Mae'r HAWLIAU ALLWEDDOL hyn yn berthnasol i bob drama a berfformir gan theatrau TNC a UKT, ac i *bob* dramodydd, hen neu ifanc, newydd neu sefydlog, enwog neu anhysbys.

1. **Rhaid i gwmnïau ddefnyddio'r cytundeb** mewn unrhyw un o'u gofodau theatr. Ni allant ddewis prynu trwydded yn unig i berfformio'r ddrama.
2. Ni all cwmnïau dalu llai na'r cyfraddau **TNC/UKT ar gyfer comisiynu, cyflwyno a derbyn**; am fynychu ymarferion, nac am opsiynau ar gyfer perfformiadau yn y dyfodol.
3. Os nad yw'r ddrama wedi ei chomisiynu, **rhaid i'r cwmni dalu'r un ffi a chyfraniadau** fyddai'n ddyledus pe byddai'r ddrama wedi'i chomisiynu.
4. **Ni ellir newid testun y ddrama** heb ganiatâd y dramodydd. Mae unrhyw newidiadau'n dod yn rhan o ddrama'r dramodydd. Ni ellir gofyn i ddramodwyr hepgor eu hawliau moesol.
5. Mae'r hawl gan y dramodydd **i fynychu'r holl ymarferion** a derbyn tâl am hynny.
6. Mae gan y dramodydd yr hawl i dderbyn costau am fynychu ymarferion ac am gyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n ymwneud â chynhyrchu'r ddrama.
7. Mae gan y dramodydd yr hawl i gymeradwyo'r dewis o gyfarwyddwyr, dylunwyr ac actorion (wrth ystyried polisi ac adnoddau'r cwmni). Mae gan y dramodydd yr hawl i drafod y cyhoeddusrwydd.
8. Mae gan y cwmni'r hawl i gyfran o enillion y dramodydd yn y dyfodol, ond dim ond ar ôl i'r dramodydd ennill swm sylweddol o'r cynyrchiadau dilynol o'r ddrama. Diweddarir y ffigyrau trothwy yn rheolaidd. Gellir gweld y ffigyrau cyfredol ar **www.writersguild.org.uk/rates-agreements/**.

Am grynodeb o gytundebau TNC a UKT, ewch i adran Adnoddau gwefan WGGB (**www.writersguild.org.uk/resources/**) a chliciwch ar *The Working Playwright: Agreements and Contracts.*

Am y cyfraddau cyfredol, ewch i **www.writersguild.org.uk/rates-agreements/** a chliciwch ar gardiau cyfraddau UK Theatre a TNC.

Mae WGGB yn cefnogi awduron ar bob cam o'u gyrfa. Ymunwch ar-lein **www.writersguild.org.uk** neu ar y ffôn: **020 7833 0777**.

Cyhoeddwyd gan WGGB Ionawr 2023. Cywir ar y dyddiad cyhoeddi.
Am wybodaeth gyfredol ewch i www.writersguild.org.uk